# COD YMDDYGIAD PRYDAIN FAWR YNGHYLCH RHYWOGAETHAU ANFRODOROL GORESGYNNOL AR GYFER PYSGOTA HAMDDEN Â GWIALEN

2020

*Cafodd y syniadau a'r testun ar gyfer y cod hwn eu cymryd o God Ymddygiad Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar gyfer Pysgota Hamdden â Gwialen a Rhywogaethau Estron Goresgynnol, a'u teilwra i gyd-fynd â gofynion Prydain Fawr.*

*Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at bysgodfeydd hamdden yn bennaf.*

Ystyr rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yw planhigion, anifeiliaid a chlefydau sydd wedi'u cyflwyno gan bobl ac sy'n cael effaith niweidiol. Maen nhw'n un o'r prif fygythiadau amgylcheddol ac yn gallu achosi difrod sylweddol i'r economi, yn ogystal ag effeithio ar iechyd pobl. Yn ôl yr amcangyfrifon, cyfanswm y gost i economi Prydain yw £1.7 biliwn bob blwyddyn. Mae o leiaf £26.5 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn ym Mhrydain Fawr dim ond yn rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol mewn dŵr croyw (Oreska & Aldridge, 2010; Williams et al., 2010).

Mae mabwysiadu mesurau ataliol i osgoi cyflwyno a lledaenu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn anfwriadol yn cael ei dderbyn yn eang fel y dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'u bygythiad. Nod Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol y DU yw targedu'r llwybrau y mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn cael eu cyflwyno drwyddynt, gan flaenoriaethu'r llwybrau hyn a rhoi mesurau ar waith i leihau cyflwyniad a sefydliad rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Yn y gorffennol, ychydig iawn o ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol drwy bysgota hamdden. Fodd bynnag, mae dros dair miliwn o bobl yn pysgota â gwialen ym Mhrydain Fawr ac mae hyn yn llwybr arwyddocaol o bosib ar gyfer symud rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhwng gwahanol ddyfrffyrdd. Drwy addysgu a chodi ymwybyddiaeth, rydym yn rhag-weld y byddwn yn lleihau'r risg o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol drwy bysgota hamdden â gwialen, a sicrhau bod pysgota â gwialen yn rhan o'r ateb, gan fod yn "llygaid a chlustiau" – yn nodi ac yn rhoi gwybod am ledaeniad rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, a helpu i'w rheoli a'u dileu.

Nod y cod ymddygiad hwn yw hybu arferion effeithiol i atal rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhag symud yn y dyfodol drwy weithgareddau pysgota â gwialen. Mae gan sefydliadau a mudiadau pysgota â gwialen sy'n cynnal gweithgareddau pysgota â gwialen ar eu dyfroedd rôl bwysig i'w chwarae hefyd, a hynny'n addysgu pysgotwyr ar effaith rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a phwysigrwydd bioddiogelwch. Nod yr argymhellion sy'n cael eu hamlinellu yma yw annog sefydliadau pysgota â gwialen i wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae llawer o'r argymhellion yn ategu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, fel Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a chodau, fel Cod Ymarfer y Comisiwn Cynghori Pysgodfeydd Mewndirol Ewropeaidd ar gyfer Pysgodfeydd Hamdden (2007) a'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Pysgota Hamdden a Bioamrywiaeth (2010).

Mae'r cod hwn yn cynnwys tri phrif fesur:

1) **Mabwysiadu mesurau ataliol effeithiol i osgoi cyflwyno a lledaenu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol (gan gynnwys clefydau) yn anfwriadol**

2) **Cymryd rhan mewn mentrau i gynyddu ymwybyddiaeth pysgotwyr o fygythiad rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a'r angen am fioddiogelwch**

3) **Mabwysiadu arferion bioddiogelwch priodol yn yr holl waith o reoli pysgodfeydd, cynefinoedd a chyrff dŵr.**

Isod mae awgrymiadau manwl ar gyfer rhoi'r mesurau allweddol ar waith. Yng ngweddill y ddogfen hon, mae "pysgota" a "physgotwyr" yn golygu pysgota â gwialen a physgotwyr â gwialen.

**1) Mabwysiadu mesurau ataliol effeithiol i osgoi cyflwyno a lledaenu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol (gan gynnwys clefydau) yn anfwriadol**

- Dylai pob perchennog/rheolwr asesu ei bysgodfa ar gyfer y risg o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a chlefydau, a'u lledaenu (a nodi mesurau i leihau unrhyw risgiau sylweddol) (gweler Atodiad 5 o'r ddogfen Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer canllawiau bioddiogelwch a'r cynllun bioddiogelwch drafft).

- Dylid rhoi gwybodaeth am rywogaethau anfrodorol goresgynnol i staff neu aelodau o Bwyllgor y Clwb Pysgota â Gwialen i sicrhau eu bod yn deall risgiau'r rhywogaethau hyn, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i liniaru'r risgiau, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy y dylid rhoi gwybod os byddant yn canfod rhywogaeth anfrodorol oresgynnol mewn corff dŵr.

- Dylid dilyn y rheoliadau a'r canllawiau perthnasol yn llwyr wrth stocio ac ailstocio, ee gweler yma ar gyfer Cymru, a dylid rhoi mesurau ar waith i atal rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhag cael eu cyflwyno'n anfwriadol ynghyd â llwythi o bysgod.

- Dylid osgoi cyflwyno unrhyw rywogaethau anfrodorol i greu pysgodfeydd. Os cynigir hynny, rhaid cydymffurfio â Chod Ymarfer y Comisiwn Cynghori Pysgodfeydd Mewndirol Ewropeaidd ar gyfer Pysgodfeydd Hamdden (mae'r ddolen yn Atodiad 1) ac â rheoliadau lleol neu genedlaethol perthnasol.

- Lle bo'n ymarferol, dylid cyfyngu ar y mynedfeydd a'r allanfeydd i bysgotwyr, yn ddelfrydol i un man. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd rhywogaeth anfrodorol oresgynnol newydd wedi cael ei nodi. Argymhellir bod pysgotwyr yn cofnodi pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael y safle, gan gadarnhau eu bod wedi gwirio a glanhau eu dillad a'u hoffer i'w gwneud hi'n bosib cyfyngu ar y rhywogaeth.

- Os yw'n bosib, dylid darparu offer pysgota, fel rhwydi glanio a chadw,

angorau, cychod ac offer cychod ar y safle, a'u defnyddio yn lle offer personol o'r tu allan i'r safle. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol os nodir rhywogaeth anfrodorol oresgynnol mewn pysgodfa.

- Dylid glanhau matiau dadfachu a bagiau bas yn drylwyr ar ôl eu defnyddio.
- Lle bo'n bosib, dylid darparu gorsafoedd bioddiogelwch/cyfleusterau glanhau ar safleoedd. Ni ddylid cysylltu'r rhain â'r system ddraenio a dylid eu harolygu'n rheolaidd.
- Yn ddelfrydol, dylai aelod o staff neu wirfoddolwr oruchwylio'r holl waith glanhau ac arolygu.
- Dylid cefnogi systemau rhybuddio'n gynnar ac ymateb yn gyflym ar gyfer rhywogaethau anfrodorol goresgynnol newydd. Dylid rhoi gwybod am rywogaethau anfrodorol goresgynnol newydd i'r awdurdod perthnasol ar unwaith: Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, Swyddogion Pysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban yn yr Alban.
- Dylech fod yn gwbl ymwybodol o'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol mewn cysylltiad â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, a chydymffurfio â nhw, a hybu'r neges *Edrych, Golchi, Sychu*.

**2) Cymryd rhan mewn mentrau i gynyddu ymwybyddiaeth pysgotwyr o fygythiad rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a'r angen am fioddiogelwch**

- Cefnogi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i roi gwybod i bysgotwyr am rywogaethau anfrodorol goresgynnol ac i hybu bioddiogelwch da (ee yr ymgyrch *Edrych, Golchi, Sychu*, yr Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol).
- Darparu arwyddion neu ganllawiau digonol i'r holl bysgotwyr hamdden i roi gwybod iddynt am risg rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, a rhoi cyngor iddynt ar sut mae eu hatal rhag lledaenu.
- Cynnwys pysgotwyr hamdden mewn rhaglenni i gael gwared ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol i gynyddu ymwybyddiaeth addysgol ac ymarferol, a'u defnyddio fel adnodd.
- Penodi rheolwr/hyrwyddwr bioddiogelwch yn y bysgodfa, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau bioddiogelwch ar waith.

**3) Mabwysiadu arferion bioddiogelwch priodol yn yr holl waith o reoli pysgodfeydd, cynefinoedd a chyrff dŵr**

Gallai gwaith rheoli pysgodfeydd hamdden yn y dŵr ac ar y lan greu risg o ledaenu neu gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn anfwriadol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys carthu neu ail-broffilio glannau, rheoli llystyfiant, gosod neu atgyweirio argaeau, pontynau neu lanfeydd, gosod a

chynnal a chadw platfformau pysgota. Mae amryw o sefydliadau, clybiau pysgota â gwialen ac unigolion yn gwneud gweithgareddau cadwraeth gwerthfawr i adfer nodweddion naturiol fel ystumiau a llystyfiant ar y lan, ailgyflwyno rhywogaethau pysgod brodorol a oedd wedi'u colli, a mesurau eraill i wella ansawdd dŵr. Felly, wrth wneud y gweithgareddau hyn, mae'n bwysig bod y mesurau bioddiogelwch gofynnol ar waith er mwyn atal y risg o ledaenu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

- Dylid cynhyrchu cynllun bioddiogelwch ar gyfer pob prosiect (gan ddefnyddio cyngor neu ganllawiau gan yr awdurdodau perthnasol). Dylai'r cynlluniau hyn amlinellu a lliniaru'r risgiau posib o ran rhywogaethau anfrodorol goresgynnol sy'n cael eu creu gan gyflenwyr, contractwyr, offer ac unigolion eraill sy'n gweithio ar y prosiect.

**Cyfeiriadau.**

CBD (2010**)** https://www.cbd.int/sp/targets/default.shtml

Asiantaeth yr Amgylchedd (2018) A Survey of Freshwater Angling in England Phase 1: Angling activity, Expenditure and Economic Impact

Y Comisiwn Ewropeaidd (2011) Communication from the Commission to the European Parliament, the Council, the Economic and Social Committee and the Committee of the Regions 244 final

Oreska M.P. J & D.C. Aldridge (2010) Estimating the financial costs of freshwater invasive species in Great Britain: a standardized approach to invasive species costing. Biological Invasions, 13: 305-319 doi: 10.1007/s10530-010-9807-7

Owen, M. (2014) European Code on Recreational Fishing and Invasive Alien Species, (document T-PVS/Inf (2014) 18). Ar gael yma.

Savini, D, Occhipinti-Ambrogi, A, Marchini, A, Tricario, E, Gherardi, F, Olenin, S & Grollasch (2010) The top 27 animal alien species introduced into Europe for aquaculture and related activities. Applied Ichthyology 26 (Suppl. 2) 1-7

Williams, F., R. Eschen, A. Harris, D. Djeddour, C. Pratt, R.S. Shaw, S. Varia, J. Lamontagne-Godwin, S.E. Thomas, S.T. Murphy (2010) The Economic Cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain, CABI: Wallingford

**Atodiad 1: Deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.**

Edrych, Golchi, Sychu
http://www.nonnativespecies.org/checkcleandry/

Rheoliad IAS yr UE
http://ec.europa.eu/environment/nature/invasivealien/index_en.htm

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/ 69205/wildlife-countryside-act.pdf

Cod Ymarfer y Comisiwn Cynghori Pysgodfeydd Mewndirol Ewropeaidd ar gyfer Pysgodfeydd Hamdden (2007)
http://www.fao.org/docrep/pdf/011/i0363e/i0363e00.pdf